Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwasanaethau Anabledd Dysgu

## Ein cynlluniau ar gyfer 2022 i 2026



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cynllun Darparu a Gweithredu Anabledd Dysgu 2022-2026**'.

**Hydref 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 36**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle ma'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**E-bost**: Andrew.stevenson@gov.wales

**Ffôn:** 0300 025 5936

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl o'r fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Am y cynllun yma......................................................4**

**Beth fyddwn ni yn ei wneud...................................5**

**Cyffredinol............................................................6**

**2. Adfer o COVID....................................................13**

**3a. Iechyd..................................................................15**

**3b. Gwasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol............................................................22**

**4. Byw'n annibynnol ac eiriolaeth.......................27**

**5. Addysg plant a phobl ifanc..............................29**

**6. Swyddi a sgiliau....................................................32**

**7. Tai..............................................................................34**


**8. Trafnidiaeth...........................................................35**

**Geiriau anodd..........................................................36**

# Am y cynllun yma



Mae’r cynllun yma wedi cael ei ysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Fe wnaethon ni weithio gyda phartneriaid i’n helpu ni i ysgrifennu hwn.




Fe ddylech chi ddarllen y cynllun yma a’n [Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022-2026](#) gyda’i gilydd.




Mae’r cynllun yma yn dweud beth fyddwn ni yn ei wneud i gyflawni’r pethau rydyn ni wedi ysgrifennu amdanyn nhw yn ein **Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022-2026.**




Fe fyddwn ni’n edrych ar y cynllun yma yn aml. Ac yn ei ddiweddaru fel mae angen.

# Beth fyddwn ni yn ei wneud



Mae 8 maes rydyn ni eisiau gweithio arnyn nhw yn y 4 blynedd nesaf:

1. Materion cyffredinol y mae angen i lawer o adrannau'r llywodraeth gymryd rhan ynddyn nhw
2. Adfer o COVID
3. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol
4. Byw'n annibynnol ac eiriolaeth
5. Addysg, gwasanaethau plant a phobl ifanc
6. Swyddi a sgiliau
7. Tai
8. Trafnidiaeth



Fe fyddwn ni yn dweud beth rydyn ni yn bwriadu ei wneud yng ngweddill y ddogfen yma. Ac erbyn pryd. Fe fyddwn ni hefyd yn dweud wrthych chi beth rydyn ni wedi ei wneud yn barod.


# 1. Cyffredinol



Fe wnaethon ni weithio gyda **LDMAG** a phartneriaid eraill i ysgrifennu:




- Y **Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022-2026**. Cafodd ei orffen yn Mai 2022.




- Y cynllun yma – y **Cynllun Darparu a Gweithredu Anabledd Dysgu 2022-2026** yn Hydref 2022.




Fe fyddwn ni yn edrych i weld ein bod ni yn cyflawni'r camau yn ein cynllun bob blwyddyn. Ac fe fydd yna adolygiad mawr yn 2024.



Fe fydd gennym ni o leiaf 4 cyfarfod o'r **Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu** (**LDMAG**) bob blwyddyn.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod y cyfarfodydd yn cynnwys pawb, ac yn hawdd i'w darganfod, i'w cyrraedd ac i gymryd rhan ynddyn nhw.



Fe fyddwn ni yn edrych i weld bod **LDMAG** yn gwneud gwaith da. A bod y grŵp yn gwneud gwahaniaeth.



Fe fyddwn ni yn gweithio i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am **LDMAG** a bod ganddo lais cryf.




Fe fyddwn ni yn gwneud hyn erbyn Mawrth 2023. Ac yna yn edrych ar hyn eto bob blwyddyn.

# Cydraddoldeb a chynhwysiant




Fe fyddwn ni yn edrych i weld pa mor dda mae ein polisïau yn helpu i ateb anghenion pobl gydag anabledd dysgu:



- O wahanol grwpiau sydd yn cael eu hamddiffyn. Er enghraifft o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig.




Fe fyddwn ni yn gwneud hyn erbyn Ebrill 2023.




Fe fyddwn ni yn gweithio ar ddatrys unrhyw broblenau rydyn ni yn eu darganfod erbyn Ebrill 2024.




Ar ôl Ebrill 2024 fe fyddwn ni yn edrych i weld sut mae ein polisïau yn effeithio ar bobl gydag anabledd dysgu o grwpiau eraill sydd yn cael eu hamddiffyn.

# Arsyllfa Anabledd Dysgu Cenedlaethol Cymru



Rydyn ni eisiau creu **Arsyllfa Anabledd Dysgu Cenedlaethol Cymru**.




Fe fydd **Arsyllfa Anabledd Dysgu Cenedlaethol Cymru** yn edrych ar, ac yn casglu gwybodaeth am bobl gydag anabledd dysgu i helpu i wella pethau. Er enghraifft, gwybodaeth am iechyd.




Fe fyddwn ni yn edrych i weld os ydy hyn yn bosibl. Ac yn penderfynu erbyn Ebrill 2024 os ydyn ni yn gallu ei wneud.

# Cymorth ymddygiad cadarnhaol



Rydyn ni eisiau gwella cefnogaeth gyda **Cymorth ymddygiad cadarnhaol** a **gofal sy'n ystyriolo drawma**.

Mae **cymorth ymddygiad cadarnhaol** a **gofal sy'n ystyriol o drawma** yn ffyrdd o gefnogi pobl gydag anabledd dysgu ac anghenion ymddygiad.




Fe fyddwn ni yn gweithio gyda phartneriaid i wneud yn siŵr bod y Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol yn cael ei ddefnyddio.




Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr eu bod nhw yn cytuno ar gamau maen nhw angen eu cymryd i ddefnyddio'r fframwaith yn eu gwaith.




Ac fe fyddwn ni yn gweithio ar ffyrdd i edrych ar hyn. Fe fyddwn ni yn gwneud hyn erbyn Ebrill 2024.



Yn 2023 i 2024 fe fyddwn ni'n profi'r ffyrdd gorau o ddefnyddio'r **Fframwaith** ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus.



Fe fyddwn ni yn creu fideo i godi ymwybyddiaeth o'r **Fframwaith** i bobl sydd yn cynllunio, trefnu a darparu gwasanaethau erbyn **Haf 2022**.

## Gweithio gyda phobl eraill



Rydyn ni eisiau i bolisïau a gwasanaethau gael eu datblygu **gyda** phobl ag anabledd dysgu yn cael cymryd rhan.



Mae eu meddyliau a'u barn yn bwysig ac fe ddylid meddwl amdanyn nhw wrth wneud penderfyniadau.



Fe fyddwn ni yn gweithio'n agos gyda phobl ag anabledd dysgu.Ac yn darganfod beth maen nhw yn ei feddwl am ein cynlluniau.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn hawdd i bobl ag anabledd dysgu ei ddeall.




Fe fyddwn ni yn gwneud hyn erbyn Ebrill 2024.

# 2. Adfer o COVID



Fe fydd **LDMAG** yn gweithio gyda grŵp gorchwyl a gorffen cenedlaethol ar **presgripsiynu cymdeithasol**.

**Presgripsiynu cymdeithasol** ydy pan mae meddygon a staff eraill yn cyfeirio pobl i wasanaethau yn y gymuned i helpu i wella eu llesiant. Er enghraifft, mynd i'r gampfa neu ymuno gyda dosbarth.




Fe fyddan nhw yn edrych ar sut rydyn ni'n gallu defnyddio **presgripsiynu cymdeithasol** i adfer o COVID a delio gydag unigrwydd.



Rydyn ni hefyd yn rhedeg ymgynghoriad ar hyn o bryd. Mae am greu **Fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol**. Cynllun mawr ydy hwn sydd yn dweud beth ydy e a sut y dylai gael ei ddefnyddio yng Nghymru.




Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 20 Hydref 2022. Mae rhagor o wybodaeth amdano ar ein gwefan yma.



Fe fyddwn ni yn meddwl am bopeth rydyn ni yn ei ddysgu o’r ymgynghoriad yma i ysgrifennu’r **Fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol**.




Fe fyddwn ni yn edrych yn arbennig ar sut i gyllido hyn yn yr hir dymor.

# 3a. Iechyd

## Gwasanaethau arbenigol i oedolion




Yn Ionawr 2022 fe wnaethon ni greu grŵp cenedlaethol i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r argymhellion yn Gwella Gofal: Adolygiad Gwella Bywydau




Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod yr holl awgrymiadau yn cael eu dilyn erbyn Ebrillil 2024.

## Marwolaethau



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr pan mae rhywun gydag anabledd dysgu yn marw bod eu marwolaeth yn cael ei adolygu.



Mae gwasanaeth newydd ar gyfer hyn, o'r enw **Gwasanaeth Archwilydd Meddygol ac Adolygiad Marwolaeth (MES)**.



Mae hyn i edrych i weld os fyddai rhywbeth wedi gallu cael ei wneud  yn wahanol i ddarparu gwell gofal a chymorth.



Rhaid rhannu unrhyw wersi sydd yn cael eu dysgu er mwyn inni allu gwella gwasanaethau.




Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod hyn yn cael ei wneud erbyn Ebrill 2023.

## Addysg anabledd dysgu



Fe fyddwn ni yn dechrau darparu **Modiwl Lefel Sylfaen Paul Ridd o'r Fframwaith Addysg Anabledd Dysgu** i staff gofal iechyd.



Fe fydd hyn yn gwneud yn siŵr bod staff mewn gofal iechyd yn ateb anghenion pobl gydag anabledd dysgu yn well




Fe wnaethon ni ddechrau gwneud hyn ar ddechrau 2022.



Fe fyddwn ni yn rhoi rhagor o hyfforddiant i ragor o staff iechyd a gofal cymdeithasol yn 2023.

## Safonau ansawdd a diogelwch



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod cynlluniau iechyd a diogelwch da yn eu lle i bobl gydag anabledd dysgu mewn gwasanaethau iechyd.




Fe fyddwn ni yn gwneud hyn erbyn Rhagfyr 2023.

# Archwiliadau iechyd



Fe fyddwn ni yn edrych i weld pa mor dda wnaeth ein prosiect archwiliad iechyd weithio. Roedd y prosiect yma yn rhedeg rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022. Fe fyddwn ni yn edrych ar fynd â hwn ymhellach yn y gwanwyn 2022.




Erbyn Ebrill 2023 fe fyddwn:



- Yn edrych ar sut mae byrddau iechyd yn darparu archwiliadau iechyd. Darganfod y ffyrdd gorau o wneud archwiliadau iechyd.A rhannu beth rydyn ni wedi ei ddysgu ar draws Cymru.



- Ysgrifennu safonau cenedlaethol ar gyfer darparu archwiliadau iechyd. A gwneud yn siŵr bod byrddau iechyd yn gweithio yn yr un ffyrdd.



Yn Ebrill 2023 fe fyddwn ni yn dechrau gweithio gyda phartneriaid i fesur pa mor dda mae'r safonau cenedlaethol yn gweithio ac yn cael eu defnyddio.


## Fframwaith Cydraddoldebau Iechyd



Fe fyddwn ni yn ymchwilio sut mae pobl yn gallu defnyddio'r Fframwaith Cydraddolodebau Iechyd ar-lein yn y ffordd gorau. Fe fyddwn ni yn gwneud hyn erbyn y gwanwyn 2023.




O'r gwanwyn 2023 ymlaen fe fyddwn ni yn dechrau cyflwyno'r Ffframwaith Cydraddoldebau Iechyd ar-lein. Fe fyddwn ni yn edrych i weld pa mor dda mae hyn yn gweithio i bobl. A faint mae'n cael ei ddefnyddio.




O Ebrill 2024 ymlaen fe fyddwn ni yn edrych ar ffyrdd o adrodd ar pa mor dda mae gwahanol therapïau yn gweithio i bobl.

# Iechyd corfforol



Fe fyddwn ni yn ysgrifennu polisïau a chanllawiau i wella sut mae gwasanaethau iechyd yn delio gydag anghenion pobl ag anabledd dysgu. Fe fyddwn ni yn canolbwyntio ar:



- **Diagnosio** a thrin **rhwymedd** – mae hyn pan dydych chi ddim yn gallu gwneud pŵ neu mae hi'n anodd gwneud pŵ.

**Diagnosio** ydy pan mae meddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol yn edrych ar eich iechyd ac ymddygiad ac yn dweud os oes gennych chi gyflwr arbennig. Mae hyn efallai yn meddwl cael rhai profion hefyd.





- Mynediad i **frechlynnau** i ddechrau a **sgrinio.**

**Brechlyn** ydy meddyginiaeth sydd yn helpu i'ch stopio chi rhag mynd yn sâl o afiechydon.

**Sgrinio** ydy chwilio am rai mathau o ganser a phroblemau iechyd eraill. Pan mae canser a phroblemau iechyd yn cael eu darganfod yn gynnar maen nhw yn fwy hawdd i'w trin.




- Defnyddio’r proffil iechyd.



- Edrych ar y system i ddangos pan mae gan rhywun sydd yn cael gofal iechyd anabledd dysgu.



- Edrych ar y bwndel gofal.




Fe wnaethon ni ddechrau gweithio ar hyn yn Ebrill 2022.

# 3b. Gwasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol

## Unigrwydd



Rydyn ni eisiau darganfod beth sydd yn gwneud i bobl gydag anabledd dysgu a'u teuluoedd a'u gofalwyr fynd yn unig. Ac wedi eu torri i ffwrdd oddi wrth eu cymunedau.




Fe fyddwn ni yn helpu i greu polisïau i ddelio gyda'r problemau yma.




Fe wnaethon ni ddechrau gweithio ar hyn yn Ebrill 2022.

# Gwasanaethau dydd a gofal seibiant





Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid ar **Blaenoriaeth 3 – Rhoi cymorth i ofalwyr di-dâl i gymryd egwyl a chael bywyd gwell** o'n Strategaeth i Ofalwyr Di-dâl.



Rydyn ni'n gweithio gyda:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Awdurdodau lleol
- A phartneriaid eraill




I ailagor gwasanaethau dydd awdurdodau yn ddiogel i ateb anghenion pobl gydag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.




Fe wnaethon ni ddechrau gweithio ar hyn yn Hydref 2022. Fe fyddwn yni yn parhau i edrych sut mae hyn yn mynd.

## Taliadau uniongyrchol



Yn Ebrill 2022 fe wnaethon ni ddechrau gweithio gyda phartneriaid i ddarganfod sut mae Taliadau Uniongyrchol yn gallu gweithio yn well gyda Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

## Rhieni gydag anabledd dysgu




Fe fyddwn ni yn creu canllaw i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant. Fe fydd y canllaw yn helpu staff i roi cymorth i rieni sydd ag anabledd dysgu. I wneud yn siŵr bod teuluoedd yn gallu aros gyda'i gilydd a bod plant yn dod yn eu blaenau.



Fe fyddwn ni hefyd yn creu canllaw i rieni gydag anabledd dysgu.




Fe fyddwn ni'n creu'r canllawiau yma erbyn **Hydref 2022.**

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru  2014



Fe fyddwn ni yn gorffen ein hadolygiad o’r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru  2014.**



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod barn a phrofiadau pobl gydag anabledd dysgu yn cael eu rhoi yn yr adolygiad.

## Gweithlu Gofal Cymdeithasol



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda phartneriaid i gynllunio ar gyfer gweithlu gofal cymdeithasol da, cryf.

## Gweithlu nyrs anabledd dysgu



Rydyn ni’n gweithio gyda phartneriaid i gynllunio ar gyfer gweithlu Nyrs Anabledd Dysgu sydd yn ateb anghenion pobl.



Rydyn ni’n edrych ar ffyrdd i gael rhagor o bobl i hyfforddi fel Nyrsus Anabledd Dysgu. Fe fyddwn ni yn edrych i weld faint oedd ar y cyrsiau yma yn Hydref 2023 a Hydref 2024.



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda phartneriaid i ddarganfod ffyrdd o wneud gyrfa fel Nyrs Anabledd Dysgu yn fwy deniadol i bobl.

## Gofalwyr



Rydyn ni’n gweithio gyda phartneriaid i ysgrifennu polisïau sydd yn ateb anghenion cymorth pobl sydd yn gofalu am bobl gydag anableddau dysgu.


# 4. Byw'n annibynnol ac eiriolaeth

## Dweud eich dweud



Yn Hydref 2022 fe fyddwn ni yn dechrau gweithio gyda phartneriaid i ddarganfod sut rydyn ni'n gallu darparu gwasanaethau **eiriolaeth** a **hunaneiriolaeth** yn y ffyrdd gorau. Fe fyddwn ni hefyd yn darparu canllaw i wneud yn siŵr eu bod nhw yn gwneud hyn yn gywir yn y dyfodol.





**Eiriolaeth** yw pan fydd rhywun yn eich helpu ac yn siarad ar eich rhan i:

dywedwch beth rydych chi eisiau ei ddweud

a gwneud i bethau ddigwydd.

**Hunan-eiriolaeth** yw pan fyddwch chi'n siarad drosoch eich hun.



Byddwn hefyd yn darparu arweiniad i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud hyn yn iawn yn y dyfodol.

## Technoleg




Yn Ebrill 2023 fe fyddwn ni yn dechrau gweithio gyda phartneriaid i ddarganfod y ffyrdd gorau o ddefnyddio technoleg i:

- helpu pobl gael dweud eu dweud
- a chael yr wybodaeth maen nhw ei angen




## Perthnasoedd

Fe fyddwn ni yn gweithio gyda LDMAG a phartneriaid i edrych ar ysgrifennu canllawiau a chyngor am berthnasoedd.



Fe fyddan nhw ar gyfer pobl gydag anabledd dysgu, eu teuluoedd a gofalwyr a darparwyr gwasanaethau.




Fe fyddwn ni yn dechrau hyn yn Ebrill 2023. Rydyn ni eisiau cael cymorth yn ei le erbyn Ebrill 2024.

# 5. Addysg plant a phobl ifanc

## Gwasanaethau anabledd dysgu



O Ebrill 2022 fe fyddwn ni yn gweithio gyda phartneriaid i wella sut mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd.

**Rhwng Ebrill 2022 ac Ebrill 2025, fe fyddwn ni yn:**



- ysgrifennu cynlluniau ar gyfer gweithio yn y ffyrdd gorau



- gweld pa fylchau sydd mewn cymorth er mwyn inni allu gwneud newidiadau



- edrych ar sut rydyn ni'n gallu gwella gwasanaethau



- ysgrifennu cynllun ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu cydgysylltiedig i blant a phobl ifanc.

# Anghenion dysgu ychwanegol



Yn Medi 2022 fe wnaethon ni  sefydlu **grŵp llywio ADY**.



Fe fydd y **grŵp llywio ADY** yma yn ein helpu ni i ddefnyddio'r system **anghenion dysgu ychwanegol** newydd yn iawn.




Mae Estyn yn arolygu addysg yng Nghymru. Fe fydd Estyn yn adolygu'r system ADY newydd. Fe fyddan nhw yn ysgrifennu adroddiad erbyn y gwanwyn  2023.



Fe fyddwn ni yn dechrau symud plant drosodd i'r system ADY newydd ym Medi 2021. Erbyn Medi 2024 fe fydd holl blant ADY yn dysgu o dan y system newydd.



Yn yr hydref 2022 fe fyddwn ni yn dewis pobl i arwain y symud i'r system newydd. Fe fyddan nhw yn rhoi cefnogaeth i ysgolion a staff.



Rydyn ni wedi creu canllawiau i helpu pawb i ddeall y system anghenion dysgu ychwanegol yn well.



Yn gynnar yn 2023 fe fyddwn ni yn sefydlu grŵp plant a phobl ifanc. I wneud yn siŵr bod dysgwyr a'u rhieni yn cymryd rhan ac yn deall y system ADY newydd.

# 6. Swyddi a sgiliau



Fe fyddwn ni yn meddwl am y gwersi sydd wedi cael eu dysgu o brosiectau fel:

- Y prosiect Engage to Change
- Rhaglen Twf Swyddi Cymru



Fe fyddwn ni yn edrych ar greu gwasanaeth hyfforddiant swyddi cenedlaethol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau.




Fe fyddwn ni yn gwneud hyn erbyn yr haf 2023.



Fe fyddwn ni yn edrych ar gymorth i gyflogwyr. Fel y Pecyn Cymorth Cyflogwyr ar-lein. Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr ei fod wedi cael ei ddiweddaru erbyn Ebrill  2023.



Fe fyddwn ni yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bobl gydag anabledd dysgu i gael **prentisiaethau**– rydych chi'n cael eich talu tra'n dysgu sgiliau swydd.




Fe fyddwn ni yn dechrau gweithio ar hyn yn 2023.



Fe fyddwn ni yn parhau i gynnig arian i gyflogwyr i ddarparu  prentisiaethau i bobl anabl. Gan ddechrau yn Ebrill 2022. Fe fyddwn ni yn cadw golwg ar hyn.

# 7. Tai



Fe fyddwn ni yn gwneud yh siŵr bod y **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** yn cynnwys pobl gydag anabledd dysgu yn eu gwaith a'u cynlluniau.




Rydyn ni wedi ysgrifennu canllaw i **Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol** i gefnogi pobl gydag anabledd dysgu i fyw yn annibynnol.

# 8. Trafnidiaeth




Rydyn ni wedi gweithio gyda llawer o wahanol bobl gyda gwahanol anghenion i ysgrifennu'r Strategaeth Trafnidiaeth Cymru.




O ganlyniad i hynny rydyn ni wedi ysgrifennu cynllun arall i wneud yn siŵr ein bod yn meddwl am **gydraddoldeb** pan rydyn ni yn darparu'r **Strategaeth Trafnidiaeth Cymru**.



Fe wnaethon ni ymgynghoriad i ddarganfod beth roedd pobl yn feddwl am y cynllun yma. Fe fyddwn ni yn meddwl am yr atebion i ddatblygu ein syniadau am hyn ymhellach.



Rydyn ni eisiau rhedeg prosiect ar gyfer gyrrwyr bws. Rydyn ni eisiau iddyn nhw ddysgu rhagor am **gydraddoldeb** a **mynediad**.



Rydyn ni'n aros am ganiatad cyn inni allu rhedeg y prosiect yma.

# Geiriau Anodd

### Brechlyn

Meddyginiaeth ydy brechlyn sydd yn helpu i'ch stopio rhag mynd yn sâl o afiechydon.

### Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a  gofal sy'n ystyriol o drawma

Mae Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a gofal sy'n ystyriol o drawma yn ffyrdd o gefnogi pobl gydag anabledd dysgu a phroblemau ymddygiad.

### Diagnosio

Diagnosio ydy pan mae meddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol yn edrych ar eich iechyd ac ymddygiad ac yn dweud os oes gennych chi gyflwr arbennig. Mae hyn efallai yn meddwl cael rhai profion hefyd.

### Eiriolaeth

Eiriolaeth yw pan fydd rhywun yn eich helpu ac yn siarad ar eich rhan i:

dywedwch beth rydych chi eisiau ei ddweud

a gwneud i bethau ddigwydd.

Hunan-eiriolaeth yw pan fyddwch chi'n siarad drosoch eich hun.

### Presgripsiynu cymdeithasol

Presgripsiynu cymdeithasol ydy pan mae meddyg a staff eraill yn cyfeirio pobl i wasanaethau yn y gymuned i wella eu llesiant. Er enghraifft mynd i'r gampfa neu ymuno gyda chlwb.

### Sgrinio

Mae sgrinio yn meddwl chwilio am rhai mathau o ganser a phroblemau iechyd erail mewm pobl. Lle mae canser a phroblemau iechyd yn cael eu darganfod yn gynnar maen nhw yn fwy hawdd i'w trin.